Trosolwg o ganlyniadau cymwysterau UG, Safon Uwch a Bagloriaeth Cymru Uwch yng Nghymru – Haf 2017

Cymwysterau Cymru yw'r corff annibynnol sy'n rheoleiddio cymwysterau yng Nghymru. Rydym yn goruchwylio sut mae byrddau arholi yn dyfarnu cymwysterau TGAU, UG a Safon Uwch a Bagloriaeth Cymru.

Yr haf hwn cafodd 8 cymhwyster UG newydd ac 14 o gymwysterau Safon Uwch newydd a ddatblygwyd ar gyfer dysgwyr yng Nghymru ac yr astudir ar eu cyfer gan ddysgwyr yng Nghymru eu dyfarnu am y tro cyntaf. Rydym wedi monitro gwaith CBAC o gyflwyno'r cymwysterau newydd hyn yn agos ac rydym yn hyderus fod safonau wedi cael eu cynnal.

Mae cymwysterau mewn pynciau nad ydynt wedi'u diwygio eto yn parhau i gael eu dyfarnu ledled Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon. Rydym wedi cydweithio'n agos â rheoleiddwyr cymwysterau yn y gwledydd hynny (Ofqual a CCEA) er mwyn goruchwylio'r dyfarniadau hyn fel rhan o'r dull rheoleiddio ar sail tair gwlad presennol.

Bu'r dull dyfarnu yr haf hwn yn gyson â threfniadau hirsefydlog. Mae byrddau arholi wedi defnyddio data am sut y perfformiodd carfanau mewn arholiadau blynyddoedd blaenorol er mwyn darogan sut y bydd y garfan yn debygol o berfformio yr haf hwn; gelwir hyn y 'dull canlyniadau cymaradwy'.

Os bydd y garfan sy'n astudio pwnc eleni yn debyg, o ran ei berfformiad yn y gorffennol, i garfan a astudiodd y pwnc y llynedd (ac nad ymddengys fod unrhyw beth arall yn newid) y disgwyliad yw y bydd y canlyniadau gradd cyffredinol ar gyfer y ddwy garfan yn debyg. Mae hyn yn adlewyrchu'r ffaith bwysig y caiff ffiniau graddau eu pennu gan fwrdd arholi ar gyfer pob cyfres arholiadau ac maent yn gymwys i bob myfyriwr a safodd ei arholiadau yn y gyfres honno.

Mae'r egwyddor canlyniadau cymaradwy yn sicrhau y caiff amrywioldeb canlyniadau ar y lefel genedlaethol ei gyfyngu; mae hyn yn gwarchod safonau ac yn sicrhau tegwch ar gyfer myfyrwyr, sy'n arbennig o bwysig pan fydd cymwysterau'n newid. Fodd bynnag, pan fydd newidiadau, mae mwy o amrywioldeb i'w weld fel arfer yng nghanlyniadau ysgolion a cholegau unigol.

Ar lefel UG a Safon Uwch, mae nifer y cofrestriadau wedi gostwng eto eleni. Ar lefel UG, mae nifer y cofrestriadau wedi gostwng 6% i 46,127 o gymharu â 2016. Ar lefel Safon Uwch, mae nifer y cofrestriadau yn 2017, sef 33,294, 6% yn is o gymharu â 2016.

Cymwysterau UG a Safon Uwch 2015-2017: Nifer y cofrestriadau ar gyfer cymwysterau

	2015	2016	2017
UG	52,771	49,144	46,127
Safon Uwch	36,034	35,537	33,294

Mae'n bosib bod newidiadau i nifer y cofrestriadau yn gyffredinol wedi cyfrannu at y newid yng nghanrannau'r myfyrwyr sy'n cyflawni pob gradd eleni o gymharu â blynyddoedd blaenorol. I gymryd hyn i ystyriaeth, rydym wedi cynnwys yn y trosolwg hwn nifer absoliwt yr ymgeiswyr sy'n cyflawni pob gradd, ynghyd â'r canrannau.

Crynodeb o ganlyniadau Safon Uwch: Cymru

O gymharu â chanlyniadau 2016:

- mae'r gyfran sy'n cyflawni A* wedi cynyddu 1.7 pwynt canran i 8.3%
- mae'r gyfran sy'n cyflawni A* neu A wedi cynyddu 2.3 pwynt canran i 25.0%
- mae'r gyfran sy'n cyflawni A* i E wedi cynyddu 0.4 pwynt canran i 97.7%

O gymharu â chanlyniadau 2016:

- mae nifer y graddau A* a ddyfarnwyd wedi cynyddu 418 i 2,763
- mae nifer y graddau A* neu A a ddyfarnwyd wedi cynyddu 257 i 8,324
- mae nifer y graddau A* i E a ddyfarnwyd wedi gostwng 2,050 i 32,528

Canlyniadau Safon Uwch 2015-2017 (canrannau cronnol)

	2015	2016	2017
A*	7.3	6.6	8.3
A*-A	23.1	22.7	25.0
A*-E	97.3	97.3	97.7

Canlyniadau Safon Uwch 2015-2017 (nifer y graddau a ddyfarnwyd)

	2015	2016	2017
A*	2,630	2,345	2,763
A*-A	8,324	8,067	8,324
A*-E	35,061	34,578	32,528

Mae'r canlyniadau Safon Uwch cyffredinol ar gyfer Cymru yr haf hwn wedi gwella; fodd bynnag, o ystyried y newid mawr yn y niferoedd sy'n sefyll y cymwysterau eleni, mae'n bwysig ystyried nifer absoliwt y graddau a ddyfarnwyd. Mae'r nifer absoliwt o raddau A* ac A a ddyfarnwyd yn gymharol sefydlog, gyda rhai mân newidiadau y gellid eu disgwyl ac y gellir eu hystyried yn amrywiadau arferol.

Pan fyddwn yn edrych ar y newidiadau canran ar lefel pwnc, dylid ystyried maint y garfan hefyd. Mewn rhai pynciau, mae perfformiad wedi gwella, megis ar draws y gyfres wyddoniaeth, ond mae perfformiad wedi gostwng mewn pynciau eraill, er enghraifft Mathemateg a Daearyddiaeth. Mae hyn i'w ddisgwyl gan fod carfanau yn amrywio o flwyddyn i flwyddyn, o ran maint ac o ran gallu.

Crynodeb o ganlyniadau UG: Cymru

O gymharu â chanlyniadau 2016:

- mae'r gyfran sy'n cyflawni A wedi cynyddu 1.1 pwynt canran i 19.1%
- mae'r gyfran sy'n cyflawni A i E wedi cynyddu 0.6 pwynt canran i 88.9%

O gymharu â chanlyniadau 2016:

- mae nifer y graddau A a ddyfarnwyd wedi gostwng 36 i 8,810
- mae nifer y graddau A i E a ddyfarnwyd wedi gostwng 2,387 i 41,007

Canlyniadau cymwysterau UG 2015-2017 (canrannau cronnol)

	2015	2016	2017
A	16.2	18.0	19.1
A-E	86.8	88.3	88.9

Canlyniadau cymwysterau UG 2015-2017 (nifer y graddau a ddyfarnwyd)

	2015	2016	2017
A	8,549	8,846	8,810
A-E	45,805	43,394	41,007

Mae'r canlyniadau UG cyffredinol ar gyfer Cymru yr haf hwn wedi gwella; fodd bynnag, o ystyried y newid mawr yn y niferoedd sy'n sefyll y cymwysterau eleni, mae'n bwysig ystyried nifer absoliwt y graddau a ddyfarnwyd. Mae'r nifer absoliwt o raddau A* ac A a ddyfarnwyd yn gymharol sefydlog, gyda rhai mân newidiadau y gellid eu disgwyl ac y gellir eu hystyried yn amrywiadau arferol.

Mae perfformiad wedi gwella mewn rhai pynciau, er enghraifft ar draws ieithoedd tramor modern. Mewn pynciau eraill, mae perfformiad wedi gostwng, er enghraifft ar draws y gyfres Saesneg. Mae hyn i'w ddisgwyl, gan fod carfanau yn amrywio o flwyddyn i flwyddyn, o ran maint ac o ran gallu.

Bagloriaeth Cymru Uwch

Yr haf hwn caiff y Dystysgrif Her Sgiliau Uwch Bagloriaeth Cymru ei dyfarnu am y tro cyntaf. Mae'r Dystysgrif Her Sgiliau Uwch yn cyfateb o ran maint a galw i gymhwyster Safon Uwch. Caiff ei graddio yn yr un ffordd ac mae ganddi'r un tariff pwyntiau UCAS.

Canlyniadau Tystysgrif Her Sgiliau Uwch 2017 (canrannau cronnol)

	2017
A*	1.5
A*-A	14.6
A*-E	94.0

Nid yw'r tabl hwn yn cynnwys data hanesyddol gan fod y cymhwyster wedi newid yn sylweddol eleni.

Rhagor o wybodaeth

Cyhoeddir canlyniadau llawn ar gyfer cymwysterau UG a Safon Uwch gan **JCQ** a chyhoeddir canlyniadau llawn ar gyfer Bagloriaeth Cymru Uwch gan **CBAC**.